



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Uwchradd Cathays

**Ffordd y Goron
Ffordd Seland Newydd
Cathays
Caerdydd
CF14 3XG**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Cathays

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Cathays
Awdurdod lleol	Caerdydd
Iaith y darparwr	Cyfrwng Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1037
Disgyblion o oed ysgol statudol	869
Nifer yn y chweched dosbarth (os yw'n berthnasol)	162
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd <i>(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.7%)</i>	35.8%
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) <i>(Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 21.7%)</i>	13.9%
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.6%
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	29.5%
Dyddiad penodi'r pennaeth	
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	26/02/2013
Dyddiad dechrau'r arolygiad	09/05/2022
Gwybodaeth ychwanegol	

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru:
fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Trwy arweinyddiaeth ysbrydoledig a diwylliant o uchelgais uchel wedi'i ategu gan y genhadaeth 'cyfleoedd i bawb', mae Ysgol Uwchradd Cathays yn gymuned ddysgu hynod gynhwysol ac uchelgeisiol lle mae disgyblion a staff yn ffynnu.

Mae arweinwyr wedi meithrin ethos lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog i ragori. Maent yn ymroddedig i ddatblygu disgyblion a staff i gael y gorau oll ohonynt. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cynnal ffocws dygn ar werthuso a gwella pob agwedd ar waith yr ysgol, yn enwedig effeithiolrwydd arfer ystafell ddosbarth. Mae staff yn wybodus, yn frwdfrydig, ac wedi ymrwymo'n gwbl ddiffuant i wella cyfleoedd disgyblion mewn bywyd.

Mae disgwyliadau uchel ac arferion ystafell ddosbarth sefydledig yn darparu amgylchedd dysgu dynamig. Mae gan staff ymrwymiad diwro i rannu arfer dda, gwella addysgu, a galluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni eu potensial. O ganlyniad, caiff gwersi eu cynllunio'n ofalus a chânt eu cyflwyno'n ddeheuig i ysgogi diddordeb disgyblion a'u hysbrydoli i gyflawni'n dda.

Mae trefniadau gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo dysgwyr ag ystod amrywiol o anghenion yn hyblyg, wedi'u teilwra'n dda i unigolion ac yn defnyddio darpariaeth fewnol ac allanol yn fedrus iawn i gael gwared ar rwystrau rhag dysgu. Mae rhaglenni teilwredig ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr, fel newydd-ddyfodiaid sy'n cyrraedd â medrau cyfyngedig yn y Saesneg, yn cynorthwyo disgyblion yn fedrus yn eu dysgu a'u bywyd ysgol bob dydd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Ceir diwylliant diogelu wedi'i sefydlu'n gadarn sy'n treiddio trwy'r ysgol. Mae pob aelod o staff, trwy bob agwedd ar eu gwaith, yn cymryd perchnogaeth bersonol am sicrhau bod holl anghenion disgyblion yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif a diogel. O ganlyniad, mae disgyblion yn ffynnu yn yr amgylchedd hapus, diogel a gofalgarn hwn, ac yn eithriadol o falch o berthyn i gymuned eu hysgol.

Mae disgyblion yn rhoi gwerth mawr ar fynd ati i ddathlu amrywiaeth ddiwylliannol yr ysgol. Maent yn trin ei gilydd â pharch ac yn datblygu'n llwyddiannus yr agweddau a'r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i fod yn ddysgwyr gydol oes, ac yn ddinasyddion moesegol a gwybodus Cymru. Maent yn gwrtais a chyfeillgar ac yn ymddwyn yn berffaith mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Dangosant agwedd hollol gadarnhaol tuag at eu dysgu a bywyd ysgol yn gyffredinol.

Mae blaenoriaethau clir, wedi'u cryfhau gan ddatblygiad proffesiynol effeithiol, yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a medrau Cymraeg yn dda iawn. Mae lleoliad yr ysgol yng nghanol Caerdydd a natur amrywiol y gymuned leol yn ddylanwadau pwysig ar y cwricwlwm. Mae hyn, ynghyd â dathlu unigoliaeth a chydlyniant o fewn gymuned yr ysgol, yn helpu'r ysgol i ddatblygu a chynnal ei chynefin pwrpasol ei hun.

Argymhellion

A1 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ym Mlwyddyn
11

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif werthusiad

Dysgu

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau. Mae llawer ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ei gymhwyso'n llwyddiannus mewn cyd-destunau newydd. Maent yn ymgorffori geirfa a strwythurau iaith mwy cymhleth yn eu gwaith ysgrifenedig yn gynyddol, ac yn defnyddio testunau darllen mwy soffistigedig. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu manau cychwyn ac mae disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn cyflawni'n dda iawn. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau darpariaeth ôl-16 ac addysg uwch.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando â sylw ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos y gallu i werthuso'n feirniadol, er enghraifft wrth archwilio'r ffyrdd gorau o ddisgrifio'r cymeriadau yn 'Of Mice and Men'. Mae disgyblion yn parchu gwahanol farnau ac yn cyfrannu'n hyderus at drafodaethau dosbarth. Gall llawer ohonynt werthuso gwahanol safbwyntiau a dod i gasgliadau ystyriol, er enghraifft mewn addysg grefyddol pan fyddant yn archwilio sut cafodd y byd ei greu. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn esbonio eu meddwl yn huawdl. Defnyddiant derminoleg pwnc yn hyfedr yn ystod trafodaethau gyda'u cyfoedion, ac yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen gyda dealltwriaeth ac yn dod o hyd i wybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth ac ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn y maent yn ei ddarllen, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi'r gerdd 'Kembe La' i archwilio bywyd yn Haiti. Maent yn ystyried yn dda pa mor effeithiol y mae testunau'n cyfleu gwybodaeth ac yn ennyn diddordeb y darlennydd, er enghraifft wrth ddadansoddi sut caiff tensiwn ei greu yn 'The Curious Incident of the Dog in the Night-Time'. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i ddadansoddi ffynonellau a nodi syniadau a themâu allweddol yn llwyddiannus. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn gywir a hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg ac yn ysgrifennu'n hyderus mewn arddulliau amrywiol i ennyn diddordeb y darlennydd, a dylanwadu arno. Maent yn ysgrifennu'n gywir ac yn glir, er enghraifft wrth esbonio pam mae pobl yn byw ger llosgfynyddoedd, neu pam mae'r Qur'an yn bwysig i Foslemiaid. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi'n dda ar gyfer gwahanol effeithiau, er enghraifft i amrywio cyflymdra, egluro ystyr ac osgoi amwysedd. Maent yn strwythuro darnau estynedig o ysgrifennu yn dda ac yn ailddrafftio'u gwaith yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn cynllunio, yn cofnodi ac yn gwerthuso eu gwaith ymarferol, yn mynegi eu rhagdybiaethau'n glir ac yn trafod y deilliannau'n drefnus.

Mewn pynciau perthnasol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Maent yn casglu data crai ac yn ei gynrychioli'n gywir gan ddefnyddio amrywiaeth o graffiau. Maent yn defnyddio'r rhain a chynrychioliadau graffigol eraill

yn dda i lunio casgliadau, er enghraifft wrth ymchwilio i'r cysylltiad rhwng cyfaint yr ocsigen a faint o amser y mae'n ei gymryd i gannwyll losgi hyd at ddiffodd, neu pan fyddant yn holi am gynrychioliadau graffigol mudiant harmonig syml.

Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn effeithiol ac yn greadigol at amrywiaeth o ddibenion, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio ieithoedd codio i ddylunio animeiddiadau, ac yn defnyddio HTML i ddylunio gwefannau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dawn greadigol a'u medrau meddwl yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio techneg grafu, sef sgraffito, mewn celf i ddatblygu gwaith celf sy'n cynrychioli cysyniadau gwrthwynebol fel bywyd a marwolaeth, cyfoethog a thlawd, ac yn cynhyrchu animeiddiadau i esbonio cysyniadau fel y berthynas rhwng celloedd gwyn y gwaed a bacteria. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl, cydbwysedd, ystum, rhythm, a stamina yn llwyddiannus yn eu gwersi addysg gorfforol ac mewn ystod o weithgareddau ymarferol ar draws y cwricwlwm.

O fewn amrywiaeth ddiwylliannol eang Ysgol Uwchradd Cathays, mae disgyblion yn croesawu ac yn gwerthfawrogi diwylliant Cymru yn fawr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus yn siarad Cymraeg ar lefel briodol o gymharu â'u manau cychwyn. Gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol gymhleth, er enghraifft wrth drafod manteision ac anfanteision byw yng Nghaerdydd.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn huawdl ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Defnyddiant derminoleg pwnc a geirfa gymhleth yn dda i herio syniadau ei gilydd a beirniadu gwaith pobl eraill. Maent yn dangos eu bod yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn, ac yn cymhwyso syniadau cymhleth i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd yn hyderus a llwyddiannus.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles yn gryfder clir yn Ysgol Uwchradd Cathays, ac mae disgyblion yn rhoi gwerth mawr ar sut caiff amrywiaeth ddiwylliannol yr ysgol ei chroesawu a'i dathlu trwy fywyd ysgol. Mae disgyblion yn eithriadol o falch o berthyn i gymuned yr ysgol, ac yn ffynnu yn yr ethos hapus, diogel a gofalgwr a sefydlwyd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg, ac yn eu tro, yn arddangos lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch at yr ysgol, ei staff a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod ble i droi am y cymorth priodol ar gyfer eu lles ac unrhyw broblemau sy'n eu gofidio. O ganlyniad, mae disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac mae ganddynt ffydd y bydd yr ysgol yn delio'n briodol ag unrhyw broblemau'n ymwneud â bwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n benderfynol o wneud y gorau o'u cyfnod yn yr ysgol. Maent yn falch o ategu gwerth yr ysgol i fod 'yn barod ar gyfer dysgu, a chanolbwyntio ar ddysgu'.

Mae disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth aeddfed a gwybodus iawn o'r problemau moesegol sy'n wynebu'r byd. Dangosant lefelau cryf o barch a dealltwriaeth ar gyfer pobl o gefndiroedd, ffydd a thraddodiadau amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dathlu amrywiaeth trwy gymryd rhan mewn 'diwrnod ieithoedd', lle maeawns, cerddoriaeth a choginio yn ffurfio rhan o'r gweithgarwch cyfoethogi diwylliannol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o ddibenion rheolau ac maent yn gefnogol iawn i'r prosesau gwobrwyo a chosbi yn yr ysgol. Wedyn, gallant ystyried sut caiff deddfau eu ffurfio a'u cymhwysu i gymdeithas ehangach. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 9, darllenodd pob disgybl y nofel 'A Boy with Two Hearts', a ysgrifennwyd gan un o gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Cathays sy'n disgrifio'i brofiadau yn ymuno â'r ysgol fel ceisiwr lloches.

Rhoddir arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wneud dewisiadau iach yn ymwneud â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol, ac felly maent mewn sefyllfa dda i wneud dewisiadau iach. Gwneir defnydd da o raglen allgyrsiol gyfoethog ac amrywiol yr ysgol. Mae rhaglen addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd strwythuredig yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Cefnogir y rhaglen hon yn dda gan lysgenhadon disgyblion ar gyfer lles a medrau digidol.

Mae pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain ac ymgymryd â chyfrifoldebau. Maent yn cymryd rhan mewn penderfyniadau priodol, fel y cyngor ysgol a grŵp 'Cynghrair yr Enfys' ('Rainbow Alliance'). Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn gweithio'n dda gyda chyfoedion iau mewn clybiau allgyrsiol ac o gwmpas yr ysgol yn goruchwyllo yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae disgyblion yn datblygu mwy o ymwybyddiaeth am effaith gwaith y cyngor ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod ganddynt lais ym mywyd yr ysgol ac y gwrandewir ar eu barnau a'u teimladau â pharch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn gadarnhaol â'r cyfleoedd niferus sydd ar gael iddynt gyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymdeithas ehangach. Maent yn wydn ac yn dangos hyder wrth weithio'n annibynnol. Maent yn ymateb yn dda i adborth athrawon, gan ei ddefnyddio'n llwyddiannus i wella'u gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus yr agweddau a'r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Mae bron pob un ohonynt yn gwrtais a chyfeillgar ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu a bywyd ysgol yn gyffredinol. Dangosant ymrwymiad i wella'u dealltwriaeth a'u medrau ac maent yn ymgysylltu â'u dysgu. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-21 a 2021-22. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae strategaethau clir, a gefnogir gan ddysgu proffesiynol buddiol, wedi arwain at welliannau ym medrau llafaredd ac ysgrifennu estynedig disgyblion. Mae arbenigedd athrawon mewn datblygu medrau llythrennedd disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol (SIY) iddynt yn cael effaith fuddiol ar bob un o'r disgyblion, er enghraifft trwy addysgu geirfa yn bwrsol. Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen drylwyr i helpu disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach. Caiff

eu cynnydd ei olrhain yn agos gan ddefnyddio meini prawf dechrau a gadael clir. Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau cydlynu medrau er mwyn canolbwyntio ymdrechion athrawon ar wneud llai ond ei wneud yn well. Mae gan bob pwnc ffocws medrau cytûn ac mae'n dewis agweddau i'w datblygu mewn ffordd sy'n berthnasol ar gyfer y pwnc hwnnw.

Mae gan yr ysgol weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer cwricwlwm eang a chytbwys sy'n datblygu'r wybodaeth a'r medrau hanfodol a fydd yn galluogi ei disgyblion i gystadlu'n effeithiol am gyfleoedd cyflogaeth a lleoedd mewn addysg uwch. Caiff y cwricwlwm ei ddylanwadu'n gryf gan gyd-destun amlddiwylliannol yr ysgol a chan ei lleoliad yng nghanol y brifddinas. Rhoddir pwyslais pwysig ar ddiwylliant Cymru o fewn cymuned amrywiol. Er enghraifft, mae modiwlau ar 'Fy Nghaerdydd i' ('My Cardiff') mewn celf a Saesneg a chysylltiadau defnyddiol â nifer o fusnesau lleol. Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus i sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned leol ac yn sensitif i wahanol ddiwylliannau. Mae'r ysgol yn croesawu nifer fawr o ddisgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol, yn ogystal ag ar yr adegau pontio arferol. Mae llwybrau cwricwlwm priodol yn darparu cymorth teilwredig ym mhob cyfnod allweddol ar gyfer pob grŵp penodol o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn integreiddio disgyblion yn gyflym ac yn llwyddiannus mewn dosbarthiadau prif ffrwd wedi iddynt gaffael y medrau sydd eu hangen arnynt. Ceir darpariaeth amgen effeithiol ar gyfer disgyblion bregus sy'n eu galluogi i ymgysylltu â dysgu ac ennill cymwysterau gwerth chweil trwy gymorth cynyddol a mynediad rhan-amser i goleg.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o opsiynau academaidd a galwedigaethol addas yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae'r system opsiynau agored yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i astudio eu hoff bynciau. Yn y chweched dosbarth, mae partneriaeth â cholegau lleol yn cynyddu ystod yr opsiynau ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol am y cyfleoedd y mae cwrs Her Sgiliau yn eu darparu i ddatblygu medrau cyflogadwyedd fel gwaith tîm a chyflwyno i gynulleidfa.

Mae uwch arweinwyr wedi alinio elfennau amrywiol darpariaeth iechyd a lles yn ofalus i elwa ar y cysylltiadau rhyngddynt. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn astudio diet ac yn gwneud ymarfer corff mewn gwersi lles, maent yn ymgymryd â gweithgareddau ffitrwydd personol mewn addysg gorfforol, ac yn cael gwasanaethau a sesiynau tiwtorial yn gysylltiedig â'r themâu hyn. Mae'r rhaglen ABCh yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol, er bod angen mwy o waith ar gyfer y ddarpariaeth ym Mlwyddyn 11.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol poblogaidd cyn, yn ystod ac ar ôl yr ysgol, fel dosbarthiadau mewn ieithoedd cymunedol a chlybiau mewn codi hwyl, bocsiomarfer a gwyddbwyll. Yn ystod tymor yr haf, mae'r ysgol yn cynnal amserlen o weithgareddau cyfoethogi bob pythefnos lle mae disgyblion yn ymgymryd â sesiynau dysgu estynedig ac ymweliadau addysgol amrywiol yng Nghaerdydd, a thu hwnt. Mae hyn yn llwyddiannus o ran darparu profiadau dysgu buddiol ar gyfer disgyblion i ehangu eu gorwelion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn frwdfrydig am eu pynciau ac yn rhannu'r brwdfrydedd hwn gyda'u disgyblion. Maent yn meddu ar wybodaeth bwnc gyfoes ac yn fodolau iaith da. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod disgwyliadau uchel iawn ar gyfer ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion. Mae arferion ystafell ddosbarth wedi hen

ennill eu plwyf, ac mae athrawon yn eu cymhwyso'n gyson. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd gweithio da gyda'u disgyblion, ac maent yn darparu lefelau priodol o gymorth, anogaeth a her iddynt er mwyn iddynt allu cyflawni mor uchel ag y bo modd. Mae'r athrawon hyn yn gadarn heb fod yn rymus, ac mae'r ymagwedd hon yn galluogi disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd tawel, cynhwysol a chefnogol. Mae athrawon yn datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda disgyblion bregus trwy ymagwedd groesawgar a hyblyg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n ofalus gyda nodau ac amcanion clir. Maent yn paratoi amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau priodol i ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn rhoi esboniadau clir i ddisgyblion o'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud ac yn gosod graddfeydd amser realistig ar gyfer eu cwblhau.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ysgrifenedig ac ar-lein i ennyn diddordeb disgyblion. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ddelweddwyr yn y dosbarth i amlygu pwyntiau pwysig a rhannu enghreifftiau o waith disgyblion. Mae llawer o athrawon yn defnyddio cyflymdra effeithiol i sicrhau bod disgyblion o wahanol gymwyseddau iaith yn gallu ymgysylltu a gwneud cyfraniadau llafar ac ysgrifenedig gwerthfawr. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio strategaethau effeithiol, gan gynnwys ailadrodd mynych, i hyrwyddo ynganu, geirfa, amgyffrediad a rhuglder, yn enwedig gyda newydd-ddyfodiaid i'r DU.

Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi adborth llafar cefnogol yn y dosbarth. Mae llawer ohonynt yn defnyddio holi effeithiol yn y dosbarth i wirio dealltwriaeth a chynnydd disgyblion. Defnyddiant ystod o dechnegau holi yn dda, gan gynnwys cwestiynau agored, cwestiynau targedig a defnydd effeithiol o fyrddau gwyn bach. Mae llawer o athrawon yn darparu amser meddwl clir fel bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd i baratoi eu hatebion.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol ac adeiladol ar waith disgyblion. Mae eu hadborth yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau gwella yn effeithiol i annog disgyblion i ailddrafftio eu gwaith ac ymestyn eu dealltwriaeth.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Uwchradd Cathays yn gymuned hynod ofalgar a chynhwysol lle mae gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol ar gyfer yr holl ddisgyblion yn nodwedd arwyddocaol o waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn meithrin ethos cynhwysol a chefnogol lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn datblygu perthnasoedd cryf a pharchus o fewn amgylchedd meithringar a chadarnhaol. Un o'r cryfderau nodedig yw'r ffordd y mae'r ysgol yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion a rhinweddau unigryw unigol pob disgybl. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac yn ffynnu yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr i nodi anghenion disgyblion a monitro eu lles, gan alluogi iddi ymateb mewn modd amserol a sensitif i ddarparu cymorth lle mae angen. Mae cysylltiadau â theuluoedd, ysgolion cynradd lleol a'r gymuned ehangach yn gryf. Mae'r ysgol yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth cyfoethog ac

eang i gynllunio'n effeithiol ar gyfer diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'n defnyddio partneriaethau cynhyrchiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu Fforwm Busnes y mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd estynedig gwerthfawr trwyddo, fel mentora yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, cyflwyniadau gyrfaedd gan fusnesau lleol a phrosiect celf yn gysylltiedig ag arddangosfa yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Mae darpariaeth y 'Tŷ Diogel' yn hynod effeithiol o ran cefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion. Yn dilyn prosesau nodi cynhwysfawr, gan gynnwys hunangyfeirio, mae disgyblion yn elwa ar ystod amrywiol o ymyriadau teilwredig o fewn yr ysgol ac ar y cyd â phartneriaid allanol. Mae ffocws craff ar fonitro a gwerthuso ymyriadau i sicrhau bod anghenion parhaus disgyblion yn cael eu diwallu. Mae'r tîm bugeiliol dynodedig yn arbennig o effeithiol yn helpu disgyblion sy'n newydd-ddyfodiaid i'r DU i ymgynefino â bywyd ysgol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu cymorth helaeth ar gyfer gofalwyr ifanc. Caiff y strategaethau hyn effaith noddedig ar gynnydd ac ymgysylltiad disgyblion y mae angen cymorth arnynt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Ceir ymagwedd fesul cam at gymorth, sy'n cael ei hategu gan berthnasoedd cadarnhaol a gwerthoedd cynhwysiant cryf. Caiff y rhaglenni 'Llwybrau Dysgu' a 'Cyfleoedd Estynedig' yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 eu hintegreiddio'n dda gyda darpariaeth brif ffrwd. Maent yn hynod effeithiol yn mynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu ac yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau bywyd pwysig fel cyfathrebu cymdeithasol, coginio a sut i deithio'n ddiogel. Caiff disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol ofal, cymorth ac arweiniad rhagorol sy'n eu helpu i ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch, a gwnânt gynnydd sylweddol o'u manau cychwyn. Mae proffiliau a chynlluniau dysgu dysgwyr, sy'n cael eu creu mewn partneriaeth â disgyblion a'u rhieni neu ofalwyr, yn hynod effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio ymagweddau arloesol at gynllunio ar gyfer darpariaeth, er enghraifft trwy ddefnyddio moch cwta fel ffordd o helpu disgyblion i ddatblygu cyfrifoldeb ac empathi.

Mae addysg ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn rhan bwysig o waith yr ysgol, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Ceir ymagwedd ysgol gyfan, wedi'i gwreiddio'n dda, at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Yn ychwanegol, mae strwythurau addas ar waith i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, fel y cyngor ysgol a'r grŵp LHDTTC+. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dawn greadigol trwy wersi a phrofiadau allgyrsiol, fel clybiau dawns a chelf a'r Eisteddfod flynyddol. Mae disgyblion yn elwa ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau a chystadlaethau chwaraeon fel pêl-fasged, boccia, a thennis bwrdd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau i fonitro a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Mae trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn glir a chadarn. Mae'r ysgol yn ymateb i bryderon am ddiogelu yn brydlon ac yn effeithiol. Mae staff yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad yn gyson i sicrhau bod diogelwch a lles disgyblion wrth wraidd eu gwaith o ddydd i ddydd, gan gynnwys sut maent yn cynllunio'u gwersi a'u hadnoddau, ac yn cyflawni eu rôl fel tiwtoriaid dosbarth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer codi dyheadau, ehangu gorwelion ac uchafu cyflawniad a lles disgyblion, sydd wedi'i fframio o amgylch cenhadaeth yr ysgol i ddarparu 'cyfleoedd i bawb'. Caiff y weledigaeth hon ei deall a'i rhannu'n dda gan bob un o'r staff ac mae'n treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol. O ganlyniad, caiff arweinyddiaeth ar bob lefel effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ystyriol a myfyriol, a chaiff ei gefnogi'n bwrpasol gan yr uwch dîm rheoli. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu deall yn glir gan bawb, ac mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o sut mae'r rolau hyn yn cyfuno i sicrhau gwelliant. Caiff strategaethau eu cydlynu a'u hintegreiddio'n effeithiol i uchafu eu heffaith, ac maent yn canolbwyntio'n ddiflino ar wella deilliannau disgyblion ac arferion ystafell ddosbarth.

Mae diwylliant cryf o hunanwella a chydweithio yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau lefelau uchel o les staff trwy ddathlu arfer dda a chefnogi arloesi, er enghraifft. Mae'r pennaeth yn defnyddio staff yn fedrus er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u medrau a'u profiad. Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol, yn aml gan ddefnyddio ymagweddau arloesol wedi'u teilwra i anghenion unigol. Mae hyn wedi helpu creu corff staff sy'n cydweithio i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer disgyblion.

Mae'r diwylliant dysgu proffesiynol ar draws yr ysgol yn gryfder nodedig. Mae staff yn dangos ymrwymiad eithriadol o dda i rannu, datblygu a gwerthuso arfer dda o fewn timau academaidd a bugeiliol, ac ar eu traws. Caiff gweithgareddau dysgu proffesiynol eu hintegreiddio'n ofalus gyda threfniadau ar gyfer rheoli llinell, hunanwerthuso a rheoli perfformiad. Mae trylwyredd y trefniadau hyn yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol gyson ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae prosesau hunanwerthuso wedi'u seilio ar ystod helaeth o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys adborth gan ddisgyblion a rhieni, ac yn cynnwys pob aelod o staff. Mae arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hun i nodi anghenion datblygu penodol ac yn cynllunio'n fanwl gywir i fynd i'r afael â nhw. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf o sicrhau gwelliant, gan gynnwys ymateb i'r argymhellion o'r arolygiad craidd diwethaf. Yn ychwanegol, mae wedi helpu'r ysgol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol disgyblion, hyrwyddo'r Gymraeg, lleihau effeithiau amddifadedd a datblygu gweledigaeth glir ar gyfer dylunio'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf, lle mae pob un o'r staff yn cefnogi a hyrwyddo diogelwch, lles ac ymgysylltiad pob un o'r disgyblion yn gyson trwy bob agwedd ar eu gwaith.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac yn cymryd rhan addas mewn gosod ac adolygu blaenoriaethau gwella. Maent yn sicrhau bod trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Adroddiad ar Ysgol Uwchradd Cathays
Mai 2022

Mae'r pennaeth a'r rheolwr busnes, gyda chymorth gan lywodraethwyr, yn rheoli adnoddau'r ysgol yn fedrus i uchafu effeithiolrwydd staff a deilliannau disgyblion. Maent yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei dargedu at flaenoriaethau allweddol, ac yn defnyddio cyllid fel y grant datblygu disgyblion yn dda i wella cynnydd a lles disgyblion bregus.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.llyw.cymru/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2022